



## Gweithgareddau i'w cwblhau ar y traeth ar lanw isel



### Dal Llymrïaid (yn berthnasol y gadwyn fwyd)

**Bydd arnoch chi angen: Dau ruban neu dei lliwiau gwahanol, ac amserydd.**


Rhannwch y grŵp i ddau hanner, rhowch un ruban neu dei lliw i un hanner, a'r llall i'r grŵp arall fel bod gan bawb llysywen. Y nod yw rhedeg o gwmpas y traeth a cheisio dal cynffon pawb arall (os bydd rhywun yn eich tagio chi, byddant yn ennill eich cynffon). Os bydd eich cynffon yn cael ei ddal, rydych chi allan. Pwy bynnag sydd dal yn y gêm ar y diwedd sy'n ennill.



### Helfa wyau (yn berthnasol i'r wers ysglyfaethwyr)

**Bydd arnoch chi angen: Pêl.**

Bydd dau ddysgwr yn cynrychioli môr-wenoliaid bychain sy'n ceisio diogelu'r wy (pêl) yn eu nyth. Dylid rhannu gweddill y grŵp i barau, bydd y parau hyn yn cynrychioli ysglyfaethwyr sy'n ceisio dwyn yr wy. Os bydd pâr yn llwyddo i ddwyn yr wy, byddan nhw hefyd yn newid i fod yn fôr-wenoliaid bychain ac yn ceisio diogelu'r wy. Gall y parau naill ai gymryd eu tro i ddwyn yr wy mewn amser penodol (er enghraifft, 2 funud), neu, os hoffech chi i'r gêm fod yn fwy bywiog, gall pob un o'r parau eraill geisio dwyn yr wy ar yr un pryd.



### Gêm cylchoedd helfa ysglyfaethwyr (yn berthnasol i mudo)

Rhowch fandiau neu dagiau gwahanol liwiau i ddysgwyr (er enghraifft, gwyrdd a choch ar hap) a thaflen helfa drysor (sydd wedi'i chynnwys yn y pecyn hwn). Bydd yn rhaid i'r dysgwyr geisio dod o hyd i'r trysor. Mae'n rhaid cofnodi pob eitem y maent yn dod o hyd iddynt mewn trefn (eu rhifo o 1 i 6 er enghraifft).

Unwaith y byddant wedi dod o hyd i bopeth, galwch nhw'n ôl a gofynnwch iddyn nhw pwy ddaeth o hyd i ba eitem yn gyntaf, a ble ddaethant o hyd iddyn nhw ar y traeth. Nodwch faint o'r un lliw ddaeth o hyd i rif 1 ac ati. Gofynnwch i'r dysgwyr sylwi sawl lle gwahanol y daethant o hyd i'r eitemau.


Gellir defnyddio'r gweithgaredd hwn fel cyfle i ddysgwyr weld y gwahanol lefydd y gallai môr-wenoliaid bychain fod wedi cychwyn, neu gallwch fynd â'r data yn ôl i'r ysgol a'i ddangos ar fap o'r traeth er mwyn ddangos sut mae'r cylchoedd yn rhoi data am symudiadau'r fôr-wennol fechan.






## Helfa Ysglyfaethwyr ar y Traeth

Dewch o hyd i'r eitemau hyn ar y traeth. Nodwch rif 1 wrth yr eitem gyntaf yr ydych yn dod o hyd iddi, rhif 2 wrth yr ail eitem, nes y byddwch wedi llenwi pob bocs. Nodwch ble rydych yn dod o hyd i'r eitem ar y traeth. Nid oes rhaid i chi ddod o hyd iddynt yn y drefn gywir, mwynhewch y chwilio!




### Carreg lwyd

Ble daethoch chi o hyd i hon? .....




### Cragen

Ble daethoch chi o hyd i hon? .....




### Broc môr

Ble daethoch chi o hyd i hon? .....




### Darn o sbwriel

Ble daethoch chi o hyd i hon? .....



### Gwymon

Ble daethoch chi o hyd i hon? .....



### Pluen

Ble daethoch chi o hyd i hon? .....




## Gweithgareddau llanw uchel i'w cwblhau ar y platfform ymwelwyr neu ar linell y llanw




### Modelu eitemau'r traeth (y celfyddydau mynegiannol)

Gofynnwch i ddysgwyr ddod o hyd i eitemau ar linell y llanw i greu siapiau môr-wennol/llymrien/madfall y dŵr neu lyffant cefnfelyn ar wyneb fflat.



### Hopscotch (yn berthnasol y gadwyn fwyd)

Marciwch amlinelliad hopscotch yn y tywod neu gyda sialc gan hepgor bob yn ail rhif a nodi anifeiliaid megis llyffant cefnfelyn, madfall y tywod, môr-wennol fechan a llwynog yn eu lle. Pan fydd dysgwr yn glanio ar anifail, gallwch ofyn pa fwyd mae'r anifail yn ei fwyta? Gallwch hefyd ofyn am ei leoliad ar y gadwyn fwyd.



### Môr-wennol, Môr-wennol, Llysywen (yn berthnasol i'r wers ysglyfaethwyr)

Dyma fersiwn arall o'r gêm boblogaidd duck, duck, goose, ond y tro hwn, byddwch yn defnyddio môr-wennol fechan a llysywen. Bydd y dysgwyr yn eistedd mewn cylch, a bydd un unigolyn yn rhedeg o amgylch y cylch ac yn rhoi tap ysgafn ar bennau pawb gan ddweud 'môr-wennol, môr-wennol, môr-wennol' nes byddant yn penderfynu dweud 'llysywen'.

Yna, bydd yn rhaid i'r ddau unigolyn redeg o amgylch y cylch a chyrraedd yn ôl i'r lle gwag. Y dysgwr olaf i gyrraedd y lle gwag fydd yn mynd nesaf.



### Dyfalu'ch pa anifail

Mae dyfalu'n gêm draddodiadol, ond yn hytrach na phobl, byddwch yn defnyddio môr-wennoliaid, llyswennod tywod, llwynogod. Dyma enghraifft o ddisgrifiad "Rwy'n chwim ac yn llyfn, ac yn hoffi dod o hyd i wyau mewn tyllau". Dyma gyfle i brofi sgiliau disgrifio dysgwyr!